# Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 31 Hydref 2011** |
| Amser: | **15:00 - 16:30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300002_31_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Jeffreys, Head of Strategic Budgeting - Strategic Planning, Finance & Performance, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Salway, Acting Deputy Director of Strategic Budgeting**<br>**Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Susan Morgan (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Andrew Jeffreys, Pennaeth Cyllido Strategol – Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad; Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol; a Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Cyllido Strategol.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i ddarparu:

- Nodyn sy'n egluro'r effaith y gallai rheoliadau'r Trysorlys ei chael ar floc Cymru a sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo llywodraeth leol o ran ei phwerau benthyca er mwyn rhoi hwb i fuddsoddiadau cyfalaf.
- Nodyn ar y broses ar gyfer cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghylch cyllideb 2012-13.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol i ofyn am wybodaeth ychwanegol am y cynnydd mewn costau staff yn y prif grŵp gwariant gwasanaethau canolog a gweinyddu, ynghyd ag eglurhad o ba wasanaethau sydd o dan sylw a'r rhesymau dros y cynnydd.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

Eitem 4 a chyfarfod y Pwyllgor ar 2 Tachwedd.

## 4. Aelodau'n ystyried y dystiolaeth

4.1 Bu'r Aelodau'n trafod y dystiolaeth a gafwyd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013.

## 5. Papurau i'w nodi

## 6.

5.1 Nododd y Pwyllgor y rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref a chadarnhaodd gofnodion y cyfarfod ar 20 Hydref 2011.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.